

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

202X Rhif (Cy.)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwrthrychau
Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff
(Cymru) 202X**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn sefydlu cynllun trwyddedu mandadol i unigolion sy'n dymuno rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Mae adran 57 o'r Ddeddf yn darparu bod "tyllu'r corff" yn driniaeth arbennig at ddibenion Rhan 4.

Mae'r diffiniad o "tyllu'r corff" wedi ei ddarparu yn adran 94(1) o'r Ddeddf a'i ystyr yw gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith neu wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Mae adran 94(2) o'r Ddeddf yn darparu, at ddiben diffinio "tyllu'r corff", fod y cyfeiriad at wneud trydylliad yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi y bydd unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith (er enghraifft bachau, angorau macrogroenol, angorau microgroenol, microsglodion cyfathrebu agosfaes, gleiniau silicon) yn dod o fewn y diffiniad o dyllu'r corff at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i'r unigolion hynny sy'n rhoi triniaeth tyllu'r corff gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu unrhyw wrthrych, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn, gael trwydded triniaeth arbennig o

dan Ran 4 o'r Ddeddf (oni bai eu bod wedi eu hesemptio).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

DRAFFET

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

202X Rhif (Cy.)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Cymru) 202X

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 94(1) a 123(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 123(2)(b) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(2) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Cymru) 202X.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XXX.

-
- (1) 2017 dccc 2. *Gweler* adran 124(1) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "rheoliadau".
- (2) Mae'r cyfeiriad yn adran 123 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Gwrthrychau rhagnodedig at ddibenion Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

2. Mae unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith wedi ei ragnodi at ddibenion paragraff (b) yn y diffiniad o "tyllu'r corff" yn adran 94(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, ond dim ond i'r graddau y mae'r diffiniad hwnnw yn gymwys at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf honno (triniaethau arbennig).

Enw

Dyddiad

DRAFT